

## EVANS, GRIFFITH (1835 - 1935), arloeswr astudiaeth clefydon anifeiliaid a achosir gan gynfilod, a darganfyddwr 'Trypanosoma Evansi'

**Enw:** Griffith Evans

**Dyddiad geni:** 1835

**Dyddiad marw:** 1935

**Priod:** Catherine Mary Evans (née Jones)

**Plentyn:** Mair Olwen Jones (née Evans)

**Rhiant:** Mary Evans (née Jones)

**Rhiant:** Evan Evans

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** arloeswr astudiaeth clefydon anifeiliaid a achosir gan gynfilod, a darganfyddwr 'Trypanosoma Evansi'

**Maes gweithgaredd:** Natur ac Amaethyddiaeth; Gwyddoniaeth a Mathemateg

**Awdur:** Ywain Goronwy ap Griffith

Ganwyd 7 Awst 1835 yn Tymawr, Towyn, Meirionnydd, mab Evan Evans (1801 - 1882) a Mary (1809 - 1877), merch William Jones, Tyddyn-y-berllan, Towyn. Yr oedd y tad yn olrhain ei ach o rai o hen deuluoedd Meirionnydd ac yn cyfrif bod **Lewis Owen**, a laddwyd yn 1555, a **Robert Vaughan**, Hengwrt, ymysg ei hynafiaid. Addysgwyd Griffith Evans yn y British School, Brynchrug, ac yn breifat. Bu'n ddisgybl i **John Pugh, F.R.C.S.** ('loan ab Hu Feddyg'), Aberdyfi a Towyn. Ym mis Rhagfyr 1853 aeth i'r Royal Veterinary College, gan basio'n M.R.C.V.S. ym Mai 1855. Efe oedd gyda'r cyntaf i gael ei wneud yn swyddog yn y fyddin oblegid pasio arholiad, a chan iddo basio ar dop y rhestr daeth yn feddyg anifeiliaid i'r Royal Artillery ym mis Ionawr 1860. Aeth i Canada yn y 'Great Western' gyda milwyr, a sefydlu ym Montreal, Mehefin 1861. Ymaelododd yn adran feddygol Prifysgol McGill, a graddiodd yn M.D., C.M., 1864. Ar y darfodedigaeth yr ysgrifennodd ei draethawd graddio; rhoes ynddo dystiolaeth o'i natur heintus, ac awgrymodd fod yn rhaid i'r rhai sydd yn dioddef rhagddo gael digonedd o awyr iach. Dychwelodd gyda milwyr i Loegr ym mis Gorffennaf 1870.

Fe'i hanfonwyd i'r India yn 1877 - i Sialkot yn y Punjab i archwilio clefyd lleol a fu am flynyddoedd yn peri i lawer iawn o geffylau'r fyddin draed, a rhai byddin y gynna mawr, golli eu bywydau nid yn unig yn Sialkot ond mewn manau eraill yn yr India, lle yr oedd y fyddin Brydeinig yn aros. Profwyd mai y clwyf du ydoedd. Ym mis Awst 1880 gofynnwyd i Evans fyned i Dera Ismael Khan i archwilio natur ac achos clefyd a flinasai geffylau a chamelod y Punjab Frontier Force ar hyd llawer o flynyddoedd. Gallodd brofi mai milionod yn y gwaed oedd yn achosi'r clefyd, a rhoddwyd iddynt yr enw ' Trypanosoma Evansi ' am mai Evans a'u darganfu. Dychwelodd i Loegr yn Rhagfyr 1885 a gadawodd y fyddin yn 1890 gyda'r gradd o ' Inspecting Veterinary Surgeon,' a daeth i fyw yn Brynkynallt, Bangor. Cafodd y Mary Kingsley Medal yn 1917, a D.Sc. (Cymru), 1919 (er anrhydedd).

Priododd, 26 Hydref 1870, Catherine Mary (1843 - 1923), unig ferch John Jones, M.R.C.S., Gelli, Llanfair Caereinion, wyres i **Owen Jones** 'o'r Gelli'. Bu iddynt fab a phedair merch. Bu farw 7 Rhagfyr 1935.

### Awdur

**Ywain Goronwy ap Griffith**, (1882 - 1963)

### Ffynonellau

*Report on 'Surra' Disease, Military Dept., Government of India* (December 1880)

adroddiad yn *The Veterinary Record Journal of the British Veterinary Association*, 1880

ychydig o'i hunangofiant yn *Annals of Tropical Medicine and Parasitology*, xii, 1918

Archifau LIGC: **Griffith Evans papers**

adnabyddiaeth bersonol

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Griffith Evans**

### Delweddau

Dr. Griffith Evans

Evan Evans, 'Ap Ieuan', (Ty Mawr, Towyn)

"Ap Ieuan", Tymawr, Towyn

Gruffydd Siencyn ap Ieuan, aged 17

[Silhouette of a young girl]

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18536061](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Griffith, Y. G. (1953). EVANS, GRIFFITH (1835 - 1935), arloeswr astudiaeth clefydon anifeiliaid a achosir gan gynfilod, a darganfyddwr 'Trypanosoma Evansi'. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-GRI-1835>

Cofrestru

Preifatrwydd a Chwci  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Wedi'i gerbyd gan  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government